



This is a digital copy of a book that was preserved for generations on library shelves before it was carefully scanned by Google as part of a project to make the world's books discoverable online.

It has survived long enough for the copyright to expire and the book to enter the public domain. A public domain book is one that was never subject to copyright or whose legal copyright term has expired. Whether a book is in the public domain may vary country to country. Public domain books are our gateways to the past, representing a wealth of history, culture and knowledge that's often difficult to discover.

Marks, notations and other marginalia present in the original volume will appear in this file - a reminder of this book's long journey from the publisher to a library and finally to you.

Usage guidelines

Google is proud to partner with libraries to digitize public domain materials and make them widely accessible. Public domain books belong to the public and we are merely their custodians. Nevertheless, this work is expensive, so in order to keep providing this resource, we have taken steps to prevent abuse by commercial parties, including placing technical restrictions on automated querying.

We also ask that you:

- + *Make non-commercial use of the files* We designed Google Book Search for use by individuals, and we request that you use these files for personal, non-commercial purposes.
- + *Refrain from automated querying* Do not send automated queries of any sort to Google's system: If you are conducting research on machine translation, optical character recognition or other areas where access to a large amount of text is helpful, please contact us. We encourage the use of public domain materials for these purposes and may be able to help.
- + *Maintain attribution* The Google "watermark" you see on each file is essential for informing people about this project and helping them find additional materials through Google Book Search. Please do not remove it.
- + *Keep it legal* Whatever your use, remember that you are responsible for ensuring that what you are doing is legal. Do not assume that just because we believe a book is in the public domain for users in the United States, that the work is also in the public domain for users in other countries. Whether a book is still in copyright varies from country to country, and we can't offer guidance on whether any specific use of any specific book is allowed. Please do not assume that a book's appearance in Google Book Search means it can be used in any manner anywhere in the world. Copyright infringement liability can be quite severe.


About Google Book Search


Google's mission is to organize the world's information and to make it universally accessible and useful. Google Book Search helps readers discover the world's books while helping authors and publishers reach new audiences. You can search through the full text of this book on the web at <http://books.google.com/>



600090496Y

1111 f. 13







YR

Gylwys Brydeinig :

SEF

YMCHWILIAD HANESYDDOL

I

SEFYLLFA CRISTIONOGAETH GYNTEFIG
YN EIN GWLAD.

GAN

J. LLOYD JONES,
TYDDEWI.

LLANELLI :

ARGRAFFWYD GAN REES A WILLIAMS, HEOL-Y-PARC,

1857.

PRIS DWY GEINIOG

.....

.....

YR EGLWYS BRYDEINIG;

Sef, Ymchwiliad Hanesyddol i sefyllfa Cristionogaeth gyntefig yn ein gwlad.

GAN J. LLOYD JONES, TYDDEWI.

PENNOD I.

Yn y blynyddau diweddaf mae yr eglwys Brydeinig wedi dyfod i gryn sylw, drwy y swyn-olwg a wisga henastraeth, yn gystal a'i gwahaniaeth oddiwrth Rufain; edrychir arni agos yn berffeithrwydd yr eglwysi gan ddsbarth lluosog. Mae yr ysgogiad at Babyddiaeth, a'r eithafion arall a gynrochir ganddo yn eglwys Sefydledig ein gwlad, wedi dwyn rhai pynciau perthynol i ffurf-lywodraeth eglwys Crist ar y ddaear, i sylw mwy cyhoedd a phwysig nag a dybid yn angenrheidiol iddynt gael cyn hyny; y canlynol yw prif destynau y ddadl: Pa le y mae gwir awdurdod Crist yn ei eglwys weledig ar y ddaear yn canoli? ac mewn canlyniad, o ba le mae awdurdod y swyddogion is-raddol yn cael ei dynu? a pha beth sydd yn eu cymhwyso i weinidogaeth y cysegr? Creda y ddwy blaid mewn olyniaeth Apostolaidd, ac mai heb hon, nad oes hawl gan neb ymgymeryd â gweinidogaeth yr efengyl; ond gwahaniaethant yn haniad dechrenol yr olyniaeth hon, pan y dadleua y naill mai o Rufain yn unig y derbynir hi, &c., dadleua y llall ei bod wedi dylifo yn ddidor oddiwrth Esgobion yr eglwys Brydeinig a fodolai yma yn annibynol ar eglwys Rufain erioed, ac os nad Paul neu un o'r apostolion a blannodd Cristionogaeth yma, yn sicr arall, a dderbyniodd ei awdurdod yn uniongyrchol oddiwrthynt.

Yn ei berthynas â'r golygiadau uchod, daw y gofyniadau: Pa bryd? gan bwy? ac o ba le y daeth Cristionogaeth i'r wlad hon gyntaf, ai drwy Rufain, ynte ffordd arall? pa beth oedd ffurf-lywodraeth yr eglwys hono? ac, a oedd olyniaeth Apostolaidd yn athrawiaeth a gredid ynddi? Ar y gofyniadau hyn ceisiwn gasglu tystiolaethau hanesyddol mor ddi-dduedd ag y byddo modd; nid ein dyben yw amddiffyn plaid, ond cael allan y gwirionedd.

Dyfodiad yr efengyl i Brydain. Os gofyn neb pwy oedd sylfaenwyr cyntaf yr eglwys Cristionogol yn ein hynys, yr ateb yw: "Nid Awstin a'r eglwys Sacsonaidd yn y seithfed ganrif; nid yr eglwys Gymreig dan Arch-escob Caerlleon yn y bumed ganrif; nid y Cristionogion yn amser Alban Ferthyr yn y drydedd ganrif; na Lles ap Coel a'i gynulleidfa oedd crefyddol yn yr eilfed, ychwaith. Nid un o'r rhai hyn; ond yr oedd yn ddiambheuol eglwys Gymreig yn bodoli yn flaenorol, ac wedi enill eryn ddylanwad," (Poste. Brit. Researches, p. 385). Y farn gyffredin yw, fod Cristionogaeth yn yr ynys tua'r flwyddyn O. C. 60, ac y mae y geiriau a ddefnyddir gan Gildas (De Excid. Brit. § 37) yn cyfiawnhau y golygiad. Cyfeiria at dyfodiad yr efengyl i'n gwlad yn fuan ar ol gwrthryfel Buddug; pan y "gwasgarodd Haul y Cyfiawnder ei belydrau ar ein hynys," a gellir casglu wrth berthynas yr ynys â Rufain, a'r fasnach a ddygid yn mlaen ynddi, nad yw yr uchod mewn un modd yn rhy fore.

Gan bwy y dygwyd Cristionogaeth i'r ynys? Ar hyn mae mwy nag un golygiad, rhai o honynt yn hollol ddisail, a'r oll o honynt ddim rhagor na thebygolrwydd. Hoffem pe byddai un o honynt yn ffaiith hanesyddol, ond gomeddir hyny; ac fel y Nile, gallwn fwynhau ei dyfroedd, a boddloni mewn anwybodaeth am ei tharddle. Y rhai a dybir fu yn



offerynol i bregethu Crist yma gyntaf, ynt oll yn enwau teilwng o'r gwaith, ac fel y canlyn:— Joseph o Arimathea, Pedr, Simon Zilotes, Aristobulus, un o'r deg a thriugain, &c., Gwladys a Pudens, a Paul. Gadawn yn ddisylw yr oll ond y ddau olaf, gyda nodi, fod y tystiolaethau drostynt yn rhy ddiweddar, yn rhy anghredadwy ynddynt eu hunain, a'r rhan luosocaf o'honynt yn ffrwyth dychymyg mynachod y canol-oesoedd. Mae cysondeb yn gofyn i'r oll, ac nid rhan o'r chwedlau gael eu credu.

Gwladys a Pudens. Mae Paul pan yn cyflwyno anerchion y Cristionogion yn Rhufain, i Timothy, yn 2 Tim. 4, 21, yn cyflwyno iddo hefyd anerchiad Pudens, Gwladys, a Linus; a thybia rhai mai mab Pudens a Gwladys, oedd Linus (Han. Cref. t. d. 59.) Oddiwrth ganiadau Martial y bardd (Lib. iv., Epig. 13; xi, Ep. 54), ymddengys fod Aulus Pudens, Rufeinwr, wedi priodi Cymraes o'r enw Gwladys; ac o herwydd cyd-darawiad yr enwau, mai yn naturiol i farnu mai yr un personau y cyfeirir atynt gan Paul a Martial; a chan fod Gwladys yn Gymraes, diau fod ei chariad at ei gwlad, a chariad at eneidiau ei chydwladyr, yn ei chymhell i fod yn gyfrwng, os nid i gael Paul ei hun, i gael rhyw genadwr apostolaidd arall i bregethu yma (Stilling. Oreg. Brit. p. 44, Ed. 1685). Ond i'r golygiad hwn ymddengys y pethau canlynol yn anffafriol, os nad yn ddi-nystriol.

1. Pan ysgrifennodd yr apostol yr oedd Pudens a Gwladys yn ddigon adnabyddus yn mhllith y Cristionogion i anerch Timothy: ac os yn fab iddynt, nis gallai Linus lai na bod ond ieuanc iawn. Gellir ystyried y rhieni tua 35 oed. Ysgrifennodd Paul yr Epistol yn O. C. 63 (Davidson's In.); ond ni ysgrifennwyd caniadau Martial cyn 81, a rhai o'honynt ddim cyn 96; er hyny, gesyd y bardd allan fod y

brïodas wedi cymerŷd lle ychydig cyn hyn, ac arwydda ddymuniad iddynt fyw i fod yn hen, pan oedd yn rhaid iddynt eisioes fod o 50 i 60, a maŷ ganddynt o 30 i 40. Mae yn anhosibl credu y buasai hyd yn nod i fardd paganaidd wenieithio mor bell a hyn.

2. Defnyddia yr arch-ddeon Williams (Claudia a Pudens, p. 34), y gair "*sanctus*," yr hwn a gymhwysir gan Martial at Pudens, yn sylfaen ymresymiad i brofi fod y bardd yn cydnabod Pudens yn Gtïon, gan ei fod yn gwbl gyfystr a'r Groeg *ἀγιος* sant, enw hoffusaf y Cristionogion cyntefig. Gyda phob cydnabyddiaeth o ddysg yr awdwr, tybiwn, er hyny, mai hwn yw y diweddaf o bob gair a ddefnyddiaŷ pagan at un ag oedd wedi coffeidio yr hyn a ystyrid yn "ofergoledd dinystriol;" cyfyngid y gair yn hollt i'r Cristionogion eu hunain; ac yn lle bod y gair yn profi Cristionogaeth Pudens, prawf yn hytrach mai pagan oedd y Pudens a anerchid gan Martial.

3. Pan ysgrifenodd Paul ei lythyr yr oedd Gwladys a Pudens wedi enill enw iddynt eu hunain yn mhlith y Cristionogion. Nid newyddian yn y ffydd oedd- ynt; gellid eu hymddiried mewn erlidigaeth, ac yr oedd eu henwau yn anwyl gan y dysgyblion: ond y mae profion pur foddhaol fod A Pudens yn ffafriol i Baganiaeth tua'r un amser. Yn y *Chicester Inscription* cofnodir cysegriad templ i Neptune a Minerva, adeiladwyd hi gan Goleg y gweithwyr, a rhoddwyd y tir gan A. Pudens..... "*donante aream A. Pudenti.*" Mae yn sicr mai nid Pudens yr apostol yw hwn; ond nid oes sicrwydd nad Pudens y bardd ydyw, ac os felly, cawn ardal enedigol yr enwog Gwladys yn Chichester; ond, nid Claudia yr apostol.

A fu Paul yn Mhrydain? Y golygiad mwyaf cyffredin a thebygol o'r rhai a nodwyd uchod yw, i Paul bregethu yr efengyl yn Mhrydain. Sylfaenit

y golygiad hwn, ar dystiolaeth y Teidau, ar fod Paul yn fwy tebyg nag un apostol arall i wnsud hyn, ac iddo gael hamdden a chymhelliadau i hyny (Orig. Brit. p. 39, Hughes' Horae Brit. p. 11.) Y cyntaf o'r Teidau a noda hyn fel ffaith, yw Ffortunatus, tua diwedd y chweched ganrif; ar ol hyny cofnodir ef gan ddau neu dri ereill; ond mae yn amlwg na ellir gorphwys ar dystiolaeth o'r chweched ganrif, am yr hyn gymerodd le yn y gyntaf, ac o'r unrhyw ymddiried banesyddol y gellir cyfrif Menology y Groegiaid, yr hwn a noda yr un peth, Dywed Clement o Rufain, i "Paul ddyfod i derfynau y gorllewin (επι το τερμα της δυναως), a thystiolaethu o flaen y Llywiau dwyr." Yr unig anhawsder yma yw, pa beth a olygai Clement wrth "*derfynau y gorllewin.*" Stillingfleet (p. 38) wedi difynu yn helaeth o'r awduron Groegiaid a Lladinaidd, ymadroddion ag sydd yn cyfleu Prydain yn "*eithafoedd y gorllewin,*" sydd yn dyfod i'r penderfyniad mai hyn hefyd a olygai Clement; ond os yw Prydain yn *eithafoedd y gorllewin*, nid yw yn canlyn y golygid Prydain bob amser y defnyddid yr ymadrodd; yr oedd yr ymadrodd yn cynwys yr ymherodraeth Orllewinol yn gyffredinol; a golygiadau yr awduron diweddaraf yw, nad yw'r ymadrodd yn cynwys mwy, na darfod i'r apostol bregethu yr esengyl yn rhanau gorllewinol yr ymherodraeth Rufeinig, h. y., yn Illyricum ac Itali (Kitto's Cyc. Paul: Davidson's Int. vol. ii, p. 101; Alex. Brit. Chu. p. 45). Ymresyma Stillingfleet eto oddiar y tebygolrwydd rhwng ei gyntaf a'i ail garchariad. i Paul gael digon o amser i ymweld â Phrydain; iddo gael digon o anogaethau i, ac ei fod yn fwy tebyg nag un apostol arall o waend hyny; a chreda ei fod wedi treulio y cyfswng hwnw yn y gwledydd gorllewinol; cyfrifa i'r apostol gael ei ddanfoni i

Rufain gyntaf, yn yr ail flwyddyn i Nero, iddo gael ei ferthyru yno y 13 neu y 14 i Nero; a chyfrif y carchariad yn Rhufain, a chryn dymor ato, cafodd Paul 8 neu 9 mlynedd i bregethu'r efengyl; ac oddiwrth Act. 20, 25, 30, gallwn gasglu na ddychwelodd i'r dwyrain yn y cyfamser. A chaniatau cyfrifiad yr awdwr, nid yw y casgliad yn anmhosibl nac yn annheg, ac yn neillduol os mai yn y gorllewin y treuliodd yr apostol y tymor hwnw, mae yn hynod naturiol; ond er cyfrif i'r apostol ddau garchariad yn Rhufain (yr hyn sydd hynod amhens), ni chaniata cyfrifiad manylach ddim rhagor na 3 neu 4 blynedd i'r eithaf o ryddid i'r apostol; ac y mae yn dra sicr, oddiwrth 2 Tim. 4, 10, 20; Tit. 1, 5, &c., ei fod ychydig cyn ysgrifenu y rhai hyn yn y dwyrain. Nid yw yn anmhosibl na allai'r apostol gael ei dueddu yn gryf i ymweled â Phrydain; ac nis gwyddom lai na chafodd gymhelliadau i hyny; ond teimlodd hefyd yr un peth at fanau ereill ag y lluddiwyd ef naill ai gan amgylchiadau, neu gan Ysbryd Duw, i ymweled â hwy. Er fod yr apostol yn ddiau yn feddianol ar fywiogrwydd a phenderfynoldeb mawr, eto, pan ystyriom y dull araf o deithio yn yr oes hono, a'r priodoldeb o aros ychydig gyda phob eglwys, y mae yn ormod i feddwl i Paul ymweled â'r dwyrain a'r gorllewin yn yr ysbaid o bedair blynedd. Nid oes gan hyny, y sail leiaf i gredu i Paul fod erioed yn Mhrydain; a llawer llai i unrhyw apostol arall.

Myth Lles ap Coel. Un o'r chwedlau a gafodd y cylchrediad helaethaf, a'r grediniaeth sicraf o bob peth perthynol i ddyfodiad crefydd i Ynys Prydain yw hon, ac y mae yn anhawdd rhoddi rheswm paham; o bosibl fod y dull penderfynol y gosodwyd hi allan, enwau y personau, a nodi yr amser y cymerodd hyn le, yn gymhorth i gyfrif am dano; er hyny, fel

hanesiaeth y mae yn amheus, a chydgyfarfyddiad amgylchiadau yr oes hono yn ei gwadu. Yr awdwr cyntaf y cyfarfyddwn â hi ynddo yw, Beda, yr hwn a ysgrifennodd ei Hanesiaeth Eglwysig yn nechreu yr wythfed ganrif. Ei eiriau ef ydynt,—“Yn y flwyddyn o oed Crist 156, gwnaed M. A. Verus, a'i frawd A. Commodus, yn ymherawdwr. Yn eu hamser hwy, pan oedd Eleutherius, gwr santaid, yn esgob Rhufain, Lucius, brenin y Brytaniaid, a ddanfennodd ato, yn dymuno drwy ei orchymyn ef, iddo gael ei wneud yn Gristion, a'r hwn yn fuan a gafodd ei ddymuniad santaid, ac wedi derbyn y ffydd, y Brytaniaid a'i cadwasant yn bur a dilwgr hyd amser yr ymherawdwr Diocletian,” (H. E. c. 4.) Yn mhen tua chan mlynedd ar ol hyn, ceir yr un chwedl gydag ychydig wahaniaeth yn yr amseriad, yn Nennius (c. 18), yna ceir hi yn Llyfr Llandaf (p. 61) gyda'r yohwanegiad mai enwau cenadon Lles ap Coel, oedd Medwy ac Elfan, ac yna derbyniwyd a thaeuwyd hi fel efengyl gan bob hanesydd braidd hyd heddyw. Nis gallwn mewn un modd ei chydabod yn ffaith hanesyddol, o herwydd yr ystyriaethau canlynol :—

1. Mae'r amseriad yn annghywir. Gesyd Nennius dröedigaeth Lles ap Coel yn y flwyddyn 164, dan yr ymherawdwr uchod, a'r pab Evaristus; ond bu Evaristus farw yn 109. Mae'r anhawsder yn ormod i'w gysoni. Mae cyffelyb annghysondeb yn Beda. Cam-enwa'r ymherawdwr, a rhydd y flwyddyn 156 yn dymor dychweliad y brenin i'r ffydd Gristionogol; ond nid oedd Marc Antony yn ymherawdwr y flwyddyn hono: gwna Eleutherius yn Bab, ond nid esgynodd Eleutherius i'r gadair babyddol hyd 173. Yn ei Groniel rhydd y dyddiad 167, er hyny mae'r prif anghysonder yn aros.

2. Mae yn annhebyg iawn fod y fath frein ag y

gosodir Lles ap Coel allan, yn Mhrydain yr oes hono. Yr oedd Prydain yn dalaeth Rufeinig, a phaele bynag yr oedd arfau Rhufain wedi sefydlu ei llywodraeth, yr oedd yno swyddogion o osodiad Rhufain hefyd, ac oddiar wahanol resymau, rhai ag oedd yn sicr o fod yn elynol i annibyniaeth y gorchfygedig. Yn nechreu eu hawdurdod, gallai callineb gwladol gyfawnhau ymddygiad gwahanol; gallent oddef tywysogion y genedl yn eu bri, yn gaethion pendefigol, nes bod yn ddigon cadarn i'w llwyr ddarostwng; ond yn awr yr oedd eu llywodraeth dros gan mlwydd oed yn Mhrydain, a phob lle o Dyne i Dywi wedi ymostwng i'w cyfreithiau; nid yw yn debygol fod y fath un a Lles yn frenin Prydain, a llai yn un o'r fath awdurdod yn Gwent a Morganwg, mer agos i un o brif orseddfa y Rhufeiniaid (Caerlleon-ar-Wyseg) yn Nehendir Cymru.

3. Pe byddai y fath frenin, nid yw yn debyg y danfonai y fath genadwri i Rufain. Yr oedd Rhufain yn artseffe yr ymherawdwr, a'r ymherawdwr ei hun nid yn unig yn elynol, ond yn erlidigaethus i'r efengyl. Am Marn Antony dywed Gibbon (ii. p. 448), "Yn ystod ei holl deyrnasiad dirmygai y Cristionogion fel athronydd, a chosbai hwynt fel penadur." Er hynny dyna'r amser y darfu i Dywysog ymddibynol ar yr ymherawdwr sefydlu Cristionogaeth drwy awdurdod yn nhiriogaethau erlidwyr. Meddylia'r am un o Nabobs India yn danfon i Lundain am genadon crefyddol, ac wedi iddynt ddychwelyd, yn adeiladu eglwysydd, a'u gwaddoli drwy ei diriogaethau, a hynny yn ngwynneb awdurdod baganaidd ac erlidigaethus Prydain. Mae y fath ymddygiad yn gofyn mwy o wroldeb crefyddol, ac annibyniaeth gwladol, nag y mae oes a sefyllfa Lles yn ganiatan i ni roddi idda. Y mae hefyd yn profi germod, o herwydd cyfaddefir gan amddiffyn-

wyr sefydliad gwladol, nad yw gwaddoliad cyhoedd yr egiwys Brydeinig yn foreach na'r bumed ganrif (Rees W. S. p. 114, Thacheray's Res. passim.)

4. Nid yw yr hanesydd boreaf yn son dim am dano. Yr hanesydd cyntaf gyfeiria at yr amgylchiad yw'r Sais Beda, yn yr wythfed ganrif; yna Nennius, y Trioedd, &c. Galleid dysgwyl os oedd ymddygiad Lles ap Coel a'i genadwri i Rufain ar gof a chadw yn mhlith y Cymry yn y chweched ganrif, y buasai'r hanesydd Gildas yn gwybod am dano, ac yn sicr nid diffyg gogwyddiad at Rufain a'i gosodiadau, a'i cadwai yn ddystaw; ac yr oedd ganddo well cyffe i wybod am yr hyn gymerodd le yn ei genedl ei hun, na Beda ddau can mlynedd ar ol hyny. Er hyny, pe byddai y bathodau y cyfeiria Usher a Stillingfleet atynt, fel yn dwyn delw ac argraff Lucius arnynt, yn troi allan yn wirionedd, ni fyddai dystawrwydd Gildas yn profi ond ei anwybodaeth, neu ei anghrediniaeth o'r chwedl; ond yn anhapus mae ymchwiliadau manylach yn profi nad oes dim crediniaeth i'w roddi i fodolaeth y bathodau erioed. Y bathodau dybid eu bød yn dwyn enw *Lucius*, perthynant i ddeheubarth Ffrainc, ac nid i Brydain oll (Paste Brit. Res. p. 418).

5. Nid oedd angen am y fath genadwri. Yr oedd Cristionogaeth wedi ei phlanu yn Mhrydain gan mlynedd cyn hyn; ac yn mhen ychydig gyda chan mlynedd ar ol hyn, wedi lledaenu dros y deyrnas, ac wedi gwreiddio mor ddwfn, nes rhoddi merthyron mewn amryw fanau i'r erlidigaeth a gymerodd le yma yn niwedd y drydedd ganrif. Nis gellir edrych ar y deyrnas yn amddifad o Gristionogaeth rhwng y ddau dymor yna, ond yn hytrach, yr oedd yn gref a blodeuog. Pa fodd, ynte, y cyfododd y fath chwedl? Y tebygolrwydd mwyaf yw, iddi gael ei ffurfio gan y Saeson pabyddol. Yr oedd nôd iddi

yn nyddiau Beda. Yr oedd yr eglwys Babyddol am gael y llywodraeth, a'r eglwys Brydeinig am gadw ei hannibyniaeth. Yr oedd amrywiol arferion yn perthyn i'r naill ag oedd yn ei gwahaniaethur-oddiwrth y llall; ac ni foddlonai Awstin a'i ganlynwyr, heb i'r Babaeth fod yn ben; ac er mwyn rhoddi hawl i mewn, nid gormod fyddai llunio chwedl Eles ap Coel. Gan mai o Rufain y daeth Cristionogaeth yma gyntaf, yna rhesymol oedd ym-ostwag i Rufain; a rhaid cyfaddef, fod ysbryd Rhufain yn gweithio yn gryf yn yr eglwys Gym-raig yn y burned a'r chweched ganrif (Gildas, pas-sim). Nid yw yn oermod edrych ar y chwedl wedi ei chyfansoddi, er mwyn cyfiawnhau honiadau Awa-tin fynach; ond yn ei pherthynas ag hanesyddiaeth gellir dweyd am dani, *ἀλλο μὲν κληρὸν κρίαν*—dim ond eysgod.

PENNOD II.

WEDD cyfeirio at amser dyfodiad, a'r personau a dybir fu yn offerynnau i ddwyn Cristionogaeth i'r wlad, priodol yn awr yw edrych ar arferion a defodau yr eglwys Brydeinig, ei swyddogion a'i golygiadau, mor bell ag i'm cynorthwyir gan hanesiaeth y can-rifoedd hyny ag sydd yn ein meddiant.

Yr eglwys Brydeinig yn arddangos perthynas agos a'r eglwys Ddwyrainiol. Dwg y ffaith uchod ni ar unwaith i'r casgliad, mai o'r Dwyrain y daeth Cristionogaeth i'r ynys; er y gallasai tebygolrwydd pethau ein harwain i olygiad gwahanol. Yr oedd Prydain bryd hyny dan iau Rhufain; yr oedd mas-nach helaeth yn cael ei ddwyn yn mlaen rhyngddynt, Rhufeinwyr yn dyfod i Brydain, a Phrydeinwyr yn ymwelod â Rhufain; yn wyneb y pethau hyn

byddai yn naturiol i ni gasglu mai o Rufain, talen yr ymherodraeth, y daeth yr efengyl i Brydain, a mabwysiedir y golygiad gan lawer. Dywed Schœl (De. Eccles, Brit. Scot. Hist. Font. p. 48), "Fod yn fwy tebyg i'r efengyl gael ei dwyn i Brydain gan y Rhufeiniaid, â pharai bryd hyn y masnachai y Prydeiniaid, nag iddynt ei derbyn o Gaul." Nid oes-un lle i gasglu fod fawr o ymwneud rhwng eglwysi Prydain ac eglwysi Ffrainc yn y canrifoedd cyntaf; mai yn y bumed ganrif, wedi i'r Cymry ymsefydlu yn Llydaw, pan yr oedd yr eglwys Brydeinig wedi llygru, ac mewn sefyllfa o gyfnewidiad, y daeth dylanwad eglwys Gaul, drwy Garmon a Lupus, i weithredu yn effeithiol ar yr eglwys Gymreig; o'r amser hwa allan, mai cymharu arferion a defodau y ddwy eglwys yn anhebgorol angenrheidiol er iawn ddeall sefyllfa pethau yn y ddwy; ond cyn hyn bydd yn arwain i gyfeiliornad, ac yn croesi ymdaith dylanwad eglwysi y gorllewin y naill ar y llall. Yn gyntaf, yr eglwys Brydeinig yn aanibynol ar bob eglwys arall, yn gweithredu drwy y bywyd a'r nerth oedd ynddi ei hun; yna yn cael ei dylanwadu gan eglwys Gaul; wedi hyn, eglwys Gaul yn yfed fwy o ysbryd y Babaeth, ac yn y diwedd, Brydain a Gaul yn cael eu llyncu yn gwbl ganddi. Ar yr un pryd, os oedd gwahaniaeth rhwng eglwysi Prydain a Gaul yn y canrifoedd cyntaf, yr oedd llawn cymaint os nad mwy rhyngddi â Rhufain; y fath wahaniaeth ag sydd yn ei gwneud yn anhawdd i fabwysiadu y golygiad fod un berthynas rhyngddi a'r eglwys Orllewinol. Mae teimlad, arferion, a defodau yr eglwys Brydeinig yn ein cyfeirio i'r dwyrain fel y lle mwyaf tebygol i genadon heddi ddyfod gyntaf i'r wlad hon. Nid oes dim anhawsder i ni fabwysiadu y golygiad yna: yr oedd masnach Môr y Canoldir â Phrydain; cyn ac

wedi hyn, yn helaeth ; cynwysai Asia Leiaf, Tyre, Carthage, yn gystal a phorthladdoedd Itali a Groeg. Y rhesymau dros y golygiad uchod yw y canlynol :—

Yr oedd yr eglwys Brydeinig yn cadw y Pasg yn wahanol i'r eglwys Orllewinol, ac ar yr un amser a'r eglwys Ddwyreiniol. Yn O. C. 314, galwyd cyngor yn Arles er mwyn gorchymyn cydymffurfiad cyffredinol drwy yr holl orllewin ar hyn. Yr oedd tri o esgobion Prydain yn bresenol, esgob Caerefrog, a dau esgob o Lundain;* a dywedir iddynt arwyddo y penderfyniadau a wnaed yno; er hyny ni chyfnewidiwyd y Pasg yn Mhrydain, ond parhaodd yn groes i Rufain, hyd amser Elfod, Arch-esgob Bangor; ac yn y flwyddyn 768, wedi llawer ymdrech aneffeithiol, ac yn awr ar ol cryn wrthwynebiad, y llwyddwyd i'w gael yn ol trefn Rhufain.

Tua chanol y bumed ganrif, daeth Garmon a Lupus drosodd i Gymru i wrthwynebu heresi Morgan: a thrwy eu dylanwad personol, a sefyllfa adfeiliedig crefydd yn y wlad, cyfnewidiasant arferion a defodau crefyddol yr eglwys Brydeinig i raddau pell. Priodolir i Garmon sefydliad Athrofeydd yma a thraw drwy y wlad, o ba rai y byddai gweinidogion yr eglwys i gael eu cymeryd; un o ba rai oedd dan ofal Dyfrig, yr hwn wedi hyn a elwir yn Esgob Llandaf, ac yn arch-esgob Caerlleon. Dygodd Garmon hefyd i mewn i'r eglwys Gymreig *ordinem cursus Gallorum*, "trefn gwasanaeth eglwys Gaul," yr hon mewn rhai pethau oedd yn gwahaniaethu oddiwrth eglwys Rufain, ac mewn pethau ereill yn cyfateb iddi; defnyddia Gildas rai

* Felly y mae yn yr holl gyn-ysgrifau; ac nid oes dim ond dylanwad cyfundrefn, a gynyrchai y dyb fod yma wall, ac mai Lincoln, neu Gaerlleon, &c., ddylai fod (Monu. Hist. Brit.; Gills, Hist. Auc. Brit., ii, p. 140.)

ymadroddion a ddefnyddid yn urddiad esgobion, yn y chweched ganrif, y rhai a gyfatebent i wasanaeth eglwys Gaul; ond ffurf-wasanaeth urddiad diaconiaid yn yr oes a gyfetyb i eiddo eglwys Rhufain. Yn flaenorol i hyn, yr oedd y ddwy eglwys yn amrywio mewn defodau a swyddogion; o hyn allan, mae mwy o debygolrwydd ac undeb yn ffynnu rhyngddynt; ond er hyny, yn 600, cydnabyddai Awstin heblaw y Pasg ac eilliad mynachaid y pen, fod gwahaniaeth mewn llawer o bethau rhwng y Cymru â'r eglwys Orllewinol; gwahaniaeth mwy na rhwng eglwys Gaul a Rhufain; canys, pan yn dyfod drosodd i Brydain, cafodd ganiatâd gan y Pab i fabwysiadu gwasanaeth eglwys Gaul neu Rufain, fel y gwelai fwyaf addas, i'r gyfundrefn newydd ag oedd y Lloegriaidd i fod yn dystion o honi, ac yn ddeiliaid iddi.

Yn 664, dan Oswy brenin Northumbria, cadwyd cyngor yn Whitby, er mwyn penderfynu amser cynnal y Pasg: amddiffynid yr arferiad Brydeinig gan Colman, dysgybl Columba, a Hilda y fynaches; ac eglwys Rufain yn benaf gan Wilfrid, (Beda, H. E. iii., c. 26). Amddiffynai Colman yr arferiad oddi-ar siampl Ioan a'r eglwysi Asiaidd, oddiwrt h ba rai y credai ef, â'r hyn a gadarnheid gan draddodiad yr oes, y derbyniasant yr efengyl gyntaf. Amddiffynai Wilfrid arferiad Rufain oddiar awdurdod Pedr, "i'r hwn yn unig, (meddai) y rhoddodd ein Harglwydd agoriadau teyrnas nefoedd." Pan glywodd Oswy hyn, gofynai i Colman, "Ai gwir yw Colman i'r geiriau hyn gael eu llefaru wrth Pedr gan ein Harglwydd?" "Gwir, O Frenin," atebai Colman. Yna meddai, "A ellwch chwi ddangos y fath awdurdod wedi cael ei roddi i'ch Columba chwi?" "Dim," atebai Colman. Yna ebe y brenin, "Ni wrthwynebas y trysor, ond yn mhob peth ceisiaf roddi ufydd-dod i'w osodiadau, rhag pan ddelwyf i

byrth teyrnas nefoedd, na fydd yno neb i agor i mi, gan y bydd yr hwn y mae yr allweddau ganddo yn elyn i mi;" ac felly terfynwyd dadl y Pasg o du Rufain. Colman mewn canlyniad i hyn, yn canfod fod ei athrawiaeth yn cael ei gwrthod, a'i ganlynwyr yn cael eu dirmygu, a'r wlad y llafuriodd ef a'i gyddenadon mor hunan-ymwadol a gobeithiol, a ddychwelodd yn ol i Scotland; ac aeth Rufain i mewn f'w llafur.

Cyfeirir at y canlynol fel hynodion pellach perthynol i'r eglwys Brydeinig. Ystyria trioedd cyfraith (Myf., Arch. iii, p. 314) lŵ a gymerwyd ar efengyl Ioan, y mwyaf difrifol a chysegredig. Yn herosi Morgan, a gondemniwyd gan gynghor Carthage, cynwys y trydydd a'r pumed golygiad, athrawiaethau a feithrinid gan yr eglwys Ddwyreiniol; er nad yw yn anmhosibl, mai nid o wlad ei enedigaeth, ond o dduwinyddion yr eglwys hono y cymerodd Morgan a'i gyfaill hwynt. Heb osod pwys ar yr hyn a ddywed un bywgraffiad am Dewi a'i gyfaillion yn ymweled â Jerusalem i'r dyben i gael eu hurddo yn esgobion gan Batriarch y lle; mae yn sicr i genadau o Brydain ymweled â Chaercoysteny, yn y nawfed ganrif, i ymofyn am "draaddodiadau eglwysig a chyfrifiad cywir a pherffaith o'r Pasg," (Horae, Brit. p. 317), ac y mae llythyr Aldhelm, esgob Sherborne, at Geraint, brenin Cornwall, yn ein tueddu i feddwl mai o Ddeheudir Cymru, y gallent fod. Yn y llythyr hwnw, cyhudda offeiriad Dyfed yn neillduol, o ysbryd balch ac ystyfnig, yn gwrthod pob cydweithrediad ag, a chydabyddiaeth barchus o, eglwys Rufain, (Rees W. S., p. 311). Yn y chweched ganrif, yr oedd Athrofa o ysgolheigion Groegaidd yn blodeuo yn Trim, swydd Meath, a gelwid yr eglwys yno, mewn modd penodol, "yr eglwys Roegaidd," a hynodid Culdees Gwerddon a

Scotland, o herwydd eu hadnabyddiaeth o'r iaith Roegaidd. Oddiwrth yr uchod, nid yw y casgliad yn annatoriol, mai Dwyreiniol ac nid Gorllewinol yw haniad yr eglwys Brydeinig, fod yr ymddiried a ffynai, a'r parch a ddangosid gan un at y llall, yn sylfaenedig ar ryw beth mwy na damwain; yn fyr, bod traddodiad, arferion, &c., yr eglwys Brydeinig, yn ein cyfeirio i Asia Leiaf. Mabwysiedir y golygiad hwn gan brif hanesydd eglwysig yr oes, Neander: dywed (C. H. i, p. 117, Clarke's), "Y mae aeillduolrwydd yr eglwys Brydeinig yn brawf yn erbyn ei tharddiad o Rufain; canys mewn llawer o'r defodau gwahaniaetha oddiwrth eglwys Rufain, ac amlyga agosach berthynas âg eglwysi Asia Leiaf. Gwrth-rafodd am dymor maith awdurdod Pabaeth Rufain. Mae yr amgylchiad hwn yn dangos i'r Brytaniaid dderbyn Cristionogaeth o Asia Leiaf, naill ai yn uniongyrchol, neu drwy Gaul." Ond mae y gwahaniaeth a ffynai yn y bumed ganrif, pan y dygwyd gwasanaeth a swyddogion yr eglwys Brydeinig i gydymffurfiaid â chynllun eglwys Gaul, yn ormod i greu yn eu hunffurfiaeth cyntefig.

Furf-hywodraeth yr eglwys Brydeinig. Gellir rhanu hanesyddiaeth yr eglwys Brydeinig i ddau gyfnod: y cyntaf pan yr amlygai ei hannibyniaeth ar bob eglwys arall, hyd ganol y bumed ganrif, amser Garmon; yr ail hyd y nawfed ganrif, pan y llyncwyd hi i fynw yn gwbl gan y Babaeth. Yn anhapus, nid oes neb o ysgrifeniadau y cyfnod cyntaf wedi disgyn i wared i'n hoes ni, ac ysgrifenydd boreaf yr ail gyfnod, Gildas, sydd iawn o gariad at ffurfiau a defodau Rufeinaidd; ond er nad oes genym dystiolaethau uniongyrchol o'r cyfnod cyntaf, y mae genym rai anuniongyrchol ag ydynt o gryn bwys, y rhai drwy eu cymharu a'n hysgrifenyddwr ein hun yn yr ail gyfnod, a'n cynorthwyant i

ffurfio barn bur gywir am natur a threfn eglwys foreol ein hynys. Mae y tystiolaethau hyn yn perthyn i eglwysi gogleddbarth Gwerddon a Phrydain, a dheubarth Scotland, yn cynwys y rhai a elwid y Culdees. Cydnabyddir yn gyffredin (Todd's Ir. Ch. p. 2. Schöll: p. 78) fod Cristionogaeth wedi cael ei phlanu yn yr Iwerddon a dheubarth Scotland, gan aelodau yr eglwys Brydeinig yn amser Dioclesian, neu fe allai cyn hyny; o ganlyniad, mae y llywodraeth a'r arferion a fabwysiedid gan y rhai hyn, o'r cymhorth mwyaf i ni ffurfio barn am gymeriad yr eglwys Brydeinig. Cymerir yn ganiataol iddynt ddilyn y ffurfiau a'r arferion a draddodwyd iddynt gan y cenadon cyntaf; o'r hyn lleiaf, mae ysbryd yr oesau hyny, tuedd at ffurfiau gwag ag sydd naturiol i ddyn, a'r ymosodiadau er eu llygru a wnaed arnynt oddi-allan, ynein rhwystro i feddwl, os cymerodd cyfnewidiad le, ei fod yn gyfnewidiad i ddull mwy syml nag a arferai eu tadau, yn wahanol y bu mewn eglwysi ereill yn mhob gwlad. Edrychai aelodau yr eglwysi hyn ar eu gilydd fel brodyr yn yr ail gyfnod; parhâi cyfeillgarwch i fodoli rhyngddynt, a dylanwadent i raddau mwy na dybir y naill ar y llall. Pan ddarfu i Padrig, dan fendith yr Arglwydd, ddychwelyd i'r ffydd, neu yn hytrach, ail gyneu Cristionogaeth drwy ddeheubarth Gwerddon, sefydlodd ffurf o wasanaeth, yr hon ar y cyfan oedd Rhufeinaidd, i gael ei harfer drwy yr holl eglwysi; ond ni fabwysiadwyd hi yn gyffredinol, oblegid yn y Gogledd a'r Gorllewin yr oedd ffurf flaenorol a gwahanol yn cael ei harfer, yr hon a briodolid i weinidogion yr eglwys Brydeinig (Thack. Res., ii. p. 157). Pan ddinystriwyd tywysogaethau gogledd Prydain gan y Saeson paganaidd, ffodd llawer o'r preswylwyr i ogledd Cymru, ac yn mhlith y rhai hyn yr oedd Cyndeyrn, esgob Glasgow, yr hwn a sefydlodd

athrofa yn Llanelwy, yr hon wedi hynny a ffurfiwyd yn esgobaeth. Wedi dychweliad Cyndeyrn yn ol i'w wlad, dywedir ei fod ef a Columba, apostol Scotland, yn mynych gyfarfod â'u gilydd i ymddyddan am bethau crefydd, helaethiad a chadarnhad yr eglwysi. Cofnodir hyn er dangos fod undeb a chyfeillgarwch brawdol yn cael ei feithrin rhwng y Cristionogion. Prydeinig a Gwyddelig, gwahanol iawn i'w hymddygiad, at Awstin a'i ganlynwyr, Am Hurf-lywodraeth yr eglwysi hyn, gellir dweyd *nod oedd yn esgobaidd, yn ol ystyr bresenol y gair*. Mae yn wir fod yr ysgrifenywyr mynachaid yn galw eu gweinidogion yn esgobion; ond ar yr un pryd, dangosent yn aml na feddylient rhagor na henaduriaid. Pan yn cyfeirio at kona, dywed Beda, (lib. iii., c. 4,) "fod eu llywydd yn Abad, yr hwn aydd bresbyter, i drefniadau yr hwn y mae yr holl dalaeth, ac hyd yn nod yr *esgobion* yn groes i'r dull arferol, yn ddarostyngedig, yn ol siampl eu haddysgydd cyntaf (Columba), yr hwn nid oedd *esgob*, ond presbyter a mynach." Siarada hefyd yn yr un medd am esgobion Lindisfarne, mynachlog Guldeaid, &c., er y gwyddai nad oedd y fath beth ag a olygai ef wrth *esgob*, yn urdd yn eu plith; ond pa cadwn mewn cof, mai cyhyd ag y parhaodd yr eglwys Brydeinig yn ei phurdeb cyntefig, fod henuriad ac esgob yn eiriau cyfystyr, nid y'm debyg o gam-ffurfio barn yn nghylch ei swyddogion, pan y gosodir hwy allan dan yr enw esgobion. Er profi mai felly yr oedd, difynir y tystiolaethau canlynol at yr uchod. In Hibernia, episcopi et presbyteri, unum sunt (Eck in D'aubigne), "Yn yr Iwerdden, esgobion ac henuriaid, yr un ydynt." Dywed Schöll am eglwys Scotland (p. 78), "non penes episcopos vel archiepiscopos," &c., mai "nid drwy esgobion nac arch-esgobion y llywodraethid yr

eglwysi, ond drwy abadau a chynghor henadurol." Dywed John Fordun, "cyn dyfodiad Palladius [rhagflaenydd Padrig. 431, O. C.] nad oedd gan Scotiaid Gwerddon, neb gweinidogion o uwch gradd na henuriaid yn eu heglwysi, a'u bod yn hyn yn dilyn arferiad yr eglwys gyntefig." John Bale a ddywed, mai dyben cenadaeth Palladius oedd, "fel y dygai yr offeiriadaeth dan yr un rheolau ag a ffynai yn eglwys Rhufain; yn flaenorol i hyn yr esgobion a'r gweinidogion a etholid drwy bleidlais y bobl, *fel y ffynai yn mhlith y Brytaniaid*, ac yn gyson ag arferiad eglwysi Asia." (Hor. Brit. p. 297.) Cawn Beda yn cadarnhau Bale am ddylanwad y bobl yn yr eglwys Brydeinig, ac nis gallwn ychwaith synu i Palladius gael y fath wrthwynebiad penderfynol i'w genadaeth, nes peri iddo'n fuan ddychwelyd yn ol i'w wlad—gweithredodd Padrig yn ddiau gyda mwy o gyfrwysdra a doethineb, cynyddodd ei bleidwyr yn gyflym, a gwanhâi Cristionogion yr hen ffurf yn gyferbyniol, ac ar brydiau arferai y blaid gryfaf fesurau pur lym at y wanaf, oblegid tua 570 O. C. cawn bleidwyr Padrig yn cael eu cyhuddo o esgymuno Columba "yn annglyfiawn ac annheg."

Mewn perthynas i swyddogion yr eglwys yn Nghymru, cymer y drefn esgobyddol ei ffurf ddechreuol ynddi yn nyddiau Garmon, nid oedd y swydd na'r awdurdod gydfynedol â hi, ac a grewyd bryd hyny, yn adnabyddus iddi cyn hyn; nac esgobion taleithol hyd amser maith ar ol hyn. Cydnebydd Thackeray gymaint a hyny (ii, p. 221), "Yn flaenorol i'r amser hwn (470) er fod Chorepiscopi yn wasgaredig drwy y wlad, nid oedd Tywysogaeth Cymru eto wedi ei fhanu yn esgobaethau rheolaidd." (Gwel hefyd Rees, W. s. p. 173.) Y chorepiscopi hyn oedd Cynin, esgob Llangynin, Gistlianus, yn Mynyw

Tudwal Befr. &c., nid amgen, gweinidogion a lafurient yma ac acw ar hyd y wlad, a ffurfient eglwysi, a wylent drostynt, a weddient gyda hwy, ac a'u hyfforddent mewn rhinwedd a duwioldeb. Oddiwrth gofrestrau o enwau a swyddi a gyfarfyddir mewn hen ysgrifeniadau, ymddengys y cymeryd henuriaid ac esgobion yn fynych am eu gilydd, ac am arch-esgobion. nid oes fawr o amheuaeth a ffynodd y swydd erioed yn yr eglwys Brydeinig, yr hyn a olygid wrth yr enw, nid oedd ddim amgen na'r hyn a eilw haneswyr eglwysig, yn *primus inter pares*. Ymddengys mai hyn ydoedd yr ystyr oddiwrth symudiadau mynych y swydd; yn awr, ceir hi yn Llandaf, yna yn Mynyw, yna Bangor, Dyfrig, Dewi, Elfod, &c. Mae yr hyn a ddywedir am Samson yn cymeryd y gwisgoedd arch-esgobol i Lydaw, ac na adfeddianwyd y swydd yn Nghymru mwy, yn sylfaenedig oddiar anwybodaeth o ddefnydd y *pallium* yn yr eglwys Brydeinig (Schöll. p. 42.) Pa faint bynag o wahaniaeth a effeithiodd ymosodiadau gelynyion, dadfeiliad gwybodaeth, diffyg cyd-gymdeithas, ac amgylchiadau lleol ereill, ar yr eglwysi, mae digon o brofion yn aros fod eglwysi Cymru, Gwerddon. a Scotland yn wreiddiol, yr un yn eu dechreuad, ac yn gyd-wedd o ran eu golygiadau am ffurf-lywodraeth a swyddogion yr eglwys.

Gwelir gwahaniaeth eglwysi Scotland oddiwrth eglwys Rufain yn y chweched a'r seithfed ganrif, yn y pethau canlynol:—Credent yr athrawiaeth o gyfiawnhad drwy ffydd yn unig: "Nid y credadyn," medd un o honynt, "sydd yn byw drwy gyfiawnder, ond y cyfiawn drwy gredu." Ni arferent gyffesu i'r offeiriad. Ni chredent fod gan yr offeiriad allu i faddeu pechod. Nid oeddent yn gofyn i ddwfr bedydd gael ei gysegru; ond arferent unrhyw ddwfr ag a fyddai'n gyfleus ar yr achlysur. Nid

oeddent yn credu yn sacrament y confirmasiwn. Yr oeddent yn gwbl anwybodus o'r athrawiaeth o sylweddol bresenoldeb corff a gwaed Crist yn y swper. Gweinyddent yr ordinhad santaidd mewn ffordd cwbl wahanol i ffurf Rufain, nid wrth yr allor, ond mewn congl o'r eglwys; nid gyda seremoni y *mass*, ond mewn symledd a gostyngyddrwydd. Cysegr-ent eu heglwysi yn unig i'r Drindod, ac ymwadent â phob addoliad i seintiau ac angelion. Deil St. Bernard hwy i fyny i ddirmyg fel "cenedlaeth wargaled ac aflywodraethus," a hyny o herwydd "nad oeddent yn talu degwm na blaenffwrth, nad oeddent yn priodi yn gyfreithlon (h. y., gan yr offeiriaid), nid ynt yn cyffesu, a braidd y cyfarfyddir âg un yn gosod pwys ar, nac yn cyflawni penyd." Dyg Beda (lib. iii, c. 4) achwyniad yn eu herbyn, ag sydd mewn gwirionedd yn anrhydedd iddynt. Wedi eu beio am eu hamser yn cynal y Pasg, o herwydd nad oedd un gyfrinach rhyngddynt â'r byd gwybodus; dywed, "Gan hyny, nid oeddent yn arfer ond yn unig y gweithredoedd hyny o dduwioldeb a diweirdeb, a allent ddysgu yn ysgrifeniadau y proffwydi, yr apostolion, a'r efengylwyr." Ni chafodd eglwys Rufain erioed y fath wrthwynebiad diysgog ag a gafodd oddiwrth y Cristionogion syml hyn; nid yn unig yn yr ynys hon, ond hefyd ar Gyfandir Ewrop, lle y llafurient fel cenadon yn mhllith y paganiaid, y sefydlent athrofeydd, ac y pregethent yn ngwyneb peryglon ac angau, yn erbyn cyfeiliornadau a seremonïau eglwys Rufain. Un o honynt, Clement, a gyfeirir ato rhagllaw.

PENNOD III.

Cyfyd yn awr y gsfyniad, pa mor bell y gallai eglwysi ag oedd feddianol ar ffurf-lywodraeth o'r fath hon feith,

rin, a swyddogion o'r golygiadau hyn gredu, yr athrawiaeth o olyniaeth apostolaidd? Pell yw sefyllfa pethau o ymddangos yn obeithiol; rhaid i gyfnewidiad trwyadl gymeryd lle, (yr hyn hefyd a fu.) cyn y byddai i'r fath olygiad ffynu. Nad oedd yr athrawiaeth hon yn cael ei chredu, a brofir oddiwrth ymddygiad esgotion y Saeson at yr esgobion Prydeinig—oddiar benderfyniadau cyngorau, ac oddiar dystiolaeth dysgyblion Columba ei hun. Wedi dadl y Pasg a nodwyd uchod, danfonwyd Wilfrid i Ffrainc, er cael ei urddo yn esgob Caerefrog; ond gan iâdo aros yno yn hwy nag y dygwylid, gosododd Oswy, (yr hwn eto a dueddai yn gryf at yr hen drefn) Cedd, un o ddysgyblion Columba, yn esgob, ac urddwyd ef gan Wini, esgob y *West Saxons*, yn cael ei gynorthwyo gan ddau esgob Prydeinig; ond nid oedd yr esgobion Prydeinig mewn urddau eu hunain; oblegid, medd Beda (lib. iii, c. 28) "yn yr amser hwnw nid oedd un esgob arall yn holl Brydain wedi cael ei urddo yn *ganonaid* heblaw Wini;" yr oedd yn anmhosibl, gan hyny, iddynt drosglwyddo yr olyniaeth i Cedd, a hwythau heb fod yn feddianol arni eu hun; ac yn mhen pedair blynedd ar ol hyn, pan ddaeth Theodoré o Rufain, yn arch-esgob Canterbury, ceryddwyd Cedd yn llym, am ei ryfgy yn ymgytmyrd â'r swydd, a pherffeithiodd y gwaith a ddechreuwyd arno gan Wini, h. y., gwnaeth ef yn gyflawn olynidd yr apostolion, canys yn ei olwg ef nis gallai fod felly drwy urddiad esgobion Prydeinig.

Yn 816 cadwyd cynghor yn Cealhythe, pryd y furfiwyd y penderfyniad canlynol:—(Spel. Con. i; p. 329.) "Fod yn waharddedig i unrhyw berson o'r genedl Scotlandidd ymgytmyrd â'r weinidogaeth mewn un esgobaeth, ac ni oddefir i'r cyfryw, yn gyfreithlon, gyffwrdd â dim sydd yn perthyn i'r urdd santaidd, ac ni chaniateir ychwaith i neb dderbyn dim oddiwrthynt, nac yn y bedydd, nac yn y *mass*, ac nis gallant roddi cymunde i'r bobl, *canys y mae yn ansicr i ni gan bwy y cawsant eu hordeinio, os cawsant hyny hefyd oll.* Canys os, fel y gorchymyn y canonau, nad oes i esgob na henuriad, ryddid i ruthro i dalaeth un arall, pa faint mwy y dylai y rhai hyny gael eu cau allan o'r urddau santaidd, nad ynt yn cydnabod yr urdd esgobaethol ei hun, nac yn ei han-

rhydeddu yn ereill." Mae yr uchod yn profi yn eglur fod gweinidogion yr eglwys Seisnig yn ystyried y Scotiaid yn *Sismaticiaid*, a'u bod yn honi urddau a swyddi nad oedd ganddynt yr un hawl iddynt. Mewn geiriau ereill, nid oedd yr eglwys Brydeinig yn cydweled âg Awstin a'i ganlynwyr, am natur yr olyniaeth Apostolaidd. Rhaid cyfaddef fod yr eglwys Gymreig wedi colli ei hawdurdod cyn hyn; ond o hyn hyd yr unfed ganrif ar bymtheg, tynwyd yr holl eglwysi Prydeinig dan gaethiwed y Babaeth; derbyniasant ei hurddau—mabwysiadasant ei golygiadau a'i harferion—yfasant ei hysbryd, ac yn hyny, gwadasant fod swyddogion eglwys eu tadau yn gyfreithlon mewn urddau, fod ganddynt hawl i'r gwaith cysegredig y llafurient ynddo, eu bod yn hereticiaid, ac fel y cyfryw tu allan i iechydwrïaeth yr eglwys. Yn y Babaeth collasant eu personoliaeth eu hun, fel y gorchfygedig yn y gorchfygwr, fel yr afon yn y môr, a pha *hawl* neu *awdurdod gyfriniol* bynag a honir gan yr eglwys hon yn awr, nid yw amgen na'r hyn a dderbyniwyd o Rufain drwy Awstin, Theodore, a'u holyddion.

Gellir dweyd fod gweinidogion cyntefig yr eglwys Brydeinig yn olynwyr yr apostolion, yn eu bod yn "aml mewn llafur a lludded," ac yn ymddibynu am eu cynaliaeth ar gyfraniadau gwirfoddol y rhai a werthfawrogent eu gwaith. Cydnabyddir hyn gan bleidwyr sefydliad gwladol o grefydd. Cymer gwaddoliad crefydd ddwyr, y blaenaf, mewn gwaddoliaeth eglwysi neillduol, gan bersonau unigol, allan o feddianau neu dreftadaeth bersonol; yr ail, drwy gydlais gwlad, mewn degwm neu unrhyw dreth arall. Pa bryd y dechreuodd y cyntaf yn yr eglwys Brydeinig, mae yn anmhosibl penderfynu. Dichon fod tybiaeth Prof. Rees (W. S. P. 114,) yn gywir mai Cynedda, yn nechreu y bumed ganrif roddodd y siampl, ac y mae un o'r trioedd (18) yn cadarnhau y golygiad; eto nid yw yn anmhosibl na allai personau annghyhoedd wneud hyn yn flaenorol. Medd yr un awdwr, "Gallesid dweyd fod lleoedd o addoliad yn yr oes hon (58—200 O. C.) yn cael eu cynal drwy gyfraniadau gwirfoddol y bobl, ac y mae pob lle'i gredu mai y cyfryw oedd y *flaith*," (p. 86.) Medd awdwr arall (Thacheray's Res. i, p. 206,) pan yn cyfeirio at sefyllfa yr eglwys yn y

drydedd ganrif, "Gan fod cyflogau yr esgobion, &c., yn tarddu bron yn hollol o offrymau gwirfoddol, yr oeddent yn gwbl analluog i gyflawni neb rhyw weithredoedd mawrion o garedigrwydd Cristionogol." Am yr eglwys Brydeinig, yn yr eilfed ganrif dywed, "Am mai amryw genedlaethau ar ol hyn y rhanwyd y wlad yn blwyfi, ac nad oedd degwm eto wedi ei gyflwyno drosodd i'r eglwys Gristionogol, rhaid fod gweinidogion crefydd yn cael eu cynal drwy gynorthwy oddiwrth y penadur, a thrwy offrymu y cyfundeb Cristionogol." Yr oedd y penaduriaid yr amser hwn, braidd yn ddieithriad, yn elynion i Gristionogaeth, a'u bod yn ffafro ei gweinidogion a neb rhyw gyfraniadau sydd anhygoel; nid oes yn aros, gan hyny, ond rhoddion gwirfoddol yr eglwys ei hun.

Mae y dystiolaeth a ddug Beda i Aiddan yn nechreg y seithfed ganrif, gyda golwg ar hyn, yn wir werthfawr. (L. iii, c. 5.) "Yr oedd y ganmoliaeth uwchaf i'w athrawiaeth, nad oedd ef yn dysgu i neb arall, amgen na'r hyn oedd ef ei hun a'i ganlynwyr yn fyw, canys ni cheisiai, ac ni charai ddim o bethau'r byd hwn, ond llawenhaai mewn cyfranu yn uniongyrchol rhwng y tylodion, beth bynag roddid iddo gan freninoedd a chyfoethogion y ddaear. Yr oedd gyrfa ei fywyd mor wahanol i fusgrellni ein hoerau ni, fel pwy bynag oedd ei gymdeithion, pa un ai myneich eilliedig neu wyr lleyg, defnyddient eu hamser mewn myfyrdod, h. y., naill ai yn darllen yr Ysgrhythrau, neu yn eu dysgu allan; hyn oedd ei waith beunyddiol ef ei hun, a phwy bynag a'i canlynant, pa le bynag yr elent; ac os dygwyddai, yr hyn oedd ond anfynych, iddo gael ei wahodd i fwyta gyda'r brenin, elai gydag un neu ddau ysgolhaig, ac wedi cyfranogi o ychydig ymborth, prysurai ef a'i gyfeillion i ymneillduedd, i'r dyben i ddarllen neu ysgrifenu." Yr olyniaeth orau allwn ni ganfod yma, yw ffyddlondeb i'r gwaith, ac awydd i wneud daioni.

Dylanwad y bobl yn yr eglwys Brydeinig.—Pa mor gryf oedd dylanwad y bobl, a pha mor bell y cyrhaeddai yn yr eglwys, mae yn anmhosibl penderfynu yn gywir; ond y mae yn dra amlwg nas galleid cyfnewid y defodau a'r athrawiaethau ffynedig heb ymgynghori â hwy.



Gosodir yr elfen boblogaidd allan i gryn fantais yn llafur Garmon yn erbyn heresi Morgah. Elai drwy y wlad, pregethai i'r bobl, nid yn unig yn yr eglwysi, ond hefyd yn y prif ffyrdd a'r caeau; galwyd cynghor, yr oedd gweinidogion yr eglwys yno, ac yr oedd y bobl yno hefyd nid fel edrychwr yn unig, ond fel barnwyr, a phenderfynwyr y ddadl; *futurus iudex* (Beda L. i, c. 17.) Cadarnheir y golygiad hwn, yn yr ateb roddodd esgobion a dysgawdwyr yr eglwys Brydeinig i Awstin, pan ofynai ganddynt ymostwng i ordinadau Rhufarn, dywedent, "nas gallent ymwrthod, na chyfnwid ar ddim, heb ymgynghori â'u *pobl*," non se posse absque *suorum consensu* ac *licentia*, priseis *abdicare moribus*, (Beda l. ii, c. 2.) Drwy gynorthwy y cyfeiriadau uchod, gellir gofyn, ai dylanwad y bobl oedd yr achos na fyddai'r Pasg yn cael ei gadw yn ol trefn yr eglwys Orllewinol, a phenderfyniad cynghor Arles yn 314? Fel y nodwyd, yr oedd yno dri esgob Prydeinig, esgob Caerefræg, a dau o Lundain; arwyddasant eu cydsyniad â rheolau y cynghor, ac erhyny, ni thalwyd un sylw iddynt yn Mhrydain. A ydoedd yr esgobion hyn yn cynrychioli taleithau, neu fynte eglwysi? ac os yr olaf, ai ni ddarfu'r eglwysi anghymeradwyo eu cynrychiolaeth?

Yn y sylwadau blaenorol ceisiwyd dangos nad oedd yr eglwys Brydeinig yn Esgobyddol, yn ystyr bresenol y gair, ond yn hytrach yn Henadurol; nad oedd ei hesgobion yn esgobion taleithog; ond fod "pob eglwys braidd yn feddianol ar ei hesgob," (Lappenberg Hist. Eng. i, p. 134); eu bod yn cael eu cynnal drwy gyfraniadau gwirfoddol y bobl; fod Olyniaeth Apostolaidd yn athrawiaeth ddyeithr ac anadnabyddus iddi, a'i bod yn ei hanfodion fel eglwys, yn gwabaniaethu yn hollol oddiwrth eglwys Sefydledig bresenol ein gwlad. Barned y darlennydd pa gywirdeb sydd ynddynt; nid yw y tystiolaethau hyn yn perthyn i mi ond i'r ysgrifenydd a ddifynir.

AT Y CYHOEDD.

DARLLENWYD cynwysiad y sylwadau hyn yn nghynadledd Cyfarfod Chwarterol y rhan Gymaeg o sir Benfro, yn Trefgarŷ, Mawrth 31ain, a chyflwynir hwy i'r cyhoedd ar eu dymuniad. Dichon eu bod yn cynwys syniadau newydd a dyeithr i lawer mewn perthynas i gyfansoddiad yr eglwys Brydeinig; er hynny, creda yr ysgrifenydd, mai hwy yn unig gadarnheir gan ymchwiliad diduedd o hanesyddiaeth. Mae ffurf-lywodraeth yr eglwys Brydeinig yn wahanol i'r hyn a greda sydd Ysgrhythyrol; ac nid oes ganddo un nôd ond y gwirionedd i ymestyn ato. Gan obeithio y bydd y tu-dalenau canlynol yn tueddu i raddau i wrth-weithio y camd-desgrifiadau a roddir yn y dyddiau presenol o eglwys gyntefig ein hynys, y cyflwynir hwy i sylw fy nghydwladwyr.

Tyddewi,
Mai, 1857.



